John Penri: 1563–1593

Codi gwrychyn yr awdurdodau

Dewrder / ffyddlondeb

Gorchmynnodd y Frenhines Elizabeth 1 fod rhaid i bawb fynychu eglwys y plwyf ar y Sul. Yn y gwasanaethau defnyddid y Llyfr Gweddi Gyffredin i arwain yr addoliad. Gwrthwynebai llawer iawn o bobl Cymru y ddeddf hon. Un o'r rhain oedd John Penri.

Yng Nghefn-brith yn yr hen Sir Frycheiniog y ganed Penri, ond cafodd ei addysg yn mhrifysgolion Caergrawnt a Rhydychen. Pan ddaeth yn ôl i Gymru cafodd ei siomi'n arw, "Mae'r Cymry yn bobl anwybodus iawn. Maen nhw hefyd yn ofergoelus ac yn gwbl ddifater ynglŷn â chrefydd," meddai'n bur ddigalon.

Y rheswm am hyn yn ei farn ef oedd bod yr offeiriaid yn esgeuluso'r bobl. Yn un peth roedd ganddyn nhw blwyfi enfawr ac anodd iawn oedd cadw golwg ar bob enaid o fewn y plwyfi. Ond yr hyn oedd yn poeni Penri'n fwy na dim oedd y ffaith bod yr offeiriaid yn pregethu yn Saesneg a doedd y bobl gyffredin ddim yn eu deall. Heriodd Penri y Senedd...

"Mae'n rhaid i ni sefyll yn gadarn. Mae yna gymaint o anwybodaeth ac anfoesoldeb yn y wlad. Oes raid i ni fyw mewn anwybodaeth hyd nes y byddwn ni wedi dysgu'r iaith Saesneg? Rhaid dysgu ein hoffeiriaid i bregethu yn Gymraeg. Pam na chawn glywed yr Efengyl yn cael ei thraethu yn ein hiaith ein hunain?"

Ond ni chafodd fawr o sylw. Yn wir, ffyrnigodd Whitgift, Archesgob Caergaint ar y pryd.

"Galwaf arnoch i wneud rhywbeth â'r gŵr Penri yma. Pa hawl sydd ganddo i feirniadu ein hoffeiriaid a'u condemnio am bregethu yn yr iaith Saesneg? Rwyf fi, fel Archesgob yr Eglwys, yn mynd i sefyll yn gadarn a mynnu ei fod yn cael ei garcharu am ddwyn y fath anfri ar yr Eglwys. Awgrymaf ei fod yn cael mis o garchar," meddai Whitgift.

Ac felly y bu, carcharwyd ef. Ar ôl cyfnod yn y carchar, ffodd i'r Alban ac yno y bu am dair blynedd yn dal i ysgrifennu ar y pwnc. Yn ôl i Lundain y dychwelodd i geisio dysgu'r Gymraeg i fwy o offeiriaid er mwyn eu hanfon i Gymru. Tra oedd yn y ddinas fawr, daeth yn ffrindiau a phobl eraill oedd yn dal yr un syniadau ag ef. Credai fod gan bob unigolyn hawl i addoli Duw fel y mynnai.

"Does dim rhaid i chi fynd i'r eglwys i addoli Duw. Fe gewch addoli ymhle y dymunwch chi." Cododd nyth cacwn unwaith yn rhagor. Roedd yn mynd yn groes i orchymyn Elizabeth 1. Carcharwyd ef unwaith yn rhagor. Pan oedd yn y carchar yr eildro anfonodd lythyrau a phamffledi yn pledio'i achos. Daeth ei elynion o hyd i'r papurau hyn. Fe'u defnyddiwyd i'w gyhuddo o fod yn annheyrngar i'r Frenhines. Wedi'r cwbl hi oedd pen yr eglwys y pryd hwnnw. Yr hyn roedd Penri yn ei wneud oedd annog y bobl i wrthryfela yn ei herbyn hi. Plediodd ei achos yn gadarn.

"Nid bod yn annheyrngar ydw i. Dim ond gofyn ydw i am i bobl fy ngwlad cael clywed am Iesu Grist yn eu hiaith eu hunain. Mae gennym ni hawl i glywed yr Efengyl yn yr iaith Gymraeg. Mae Cymru yn wlad anfoesol. Mae Cymru yn wlad anwybodus. Yr unig ffordd i sgubo ymaith yr anwybodaeth a'r anfoesoldeb ydi dysgu'r bobl yn eu hiaith eu hunain am yr Efengyl."

Ofer fu'r protestio. Ac yntau ond yn ddeg ar hugain oed fe'i dienyddiwyd am ei ddaliadau. Collodd ei fywyd yn poeni am ei gyd-wladwyr.

"Carwch eich gelynion a gweddïwch dros y rhai sy'n eich erlid."

Mathew 5:44

O Dduw, Ein Tad,
weithiau mi ydw i yn anwybyddu'r Gymraeg,
yn gwrthod siarad Cymraeg,
yn gwrthod ysgrifennu Cymraeg,
yn gwrthod darllen Cymraeg.
Pan fydda i'n teimlo felly
helpa fi i gofio am aberth pobl fel John Penri.
Amen.

Pa mor bwysig ydi'r iaith Gymraeg yn ein hymwneud â'n gilydd bob dydd?
Oes angen mynd i eithafion fel y gwnaeth John Penri?